

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL YR ASIANTAETH YMCHWIL A DYFEISIO BLAENGAR

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ("ARIA") ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Mawrth 2021. Gwnaed y Bil yn amodol ar gynnig cario drosodd ar 23 Mawrth, a gorffennodd Tŷ'r Cyffredin ystyried y Bil ar 7 Mehefin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin – ac ar hyn o bryd nid yw'r dyddiad ar gyfer yr ail ddarlleniad wedi cael ei gadarnhau. Mae disgwyl i'r Bil, os caiff ei basio, gael Cydsyniad Brenhinol yr yr hydref. Gellir gweld y Bil yma: <https://bills.parliament.uk/publications/41755/documents/351>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwireddu ei huchelgais, fel y'i cyflwynwyd yn Araith y Frenhines ym mis Rhagfyr 2019, ar gyfer "dull newydd o ariannu meysydd ymchwil a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg" a fydd "yn darparu cyllid hirdymor i gefnogi syniadau gwyddonol, peirianeg a thechnoleg risg uchel, uchel eu gwerth, ac [a fydd] yn ategu system ymchwil bresennol o'r radd flaenaf y DU."
4. Mae'r Map Trywydd Ymchwil a Datblygu yn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn nodi bwriad y Llywodraeth i gadarnhau safbwynt y DU fel uwchbŵer gwyddoniaeth. Disgrifiodd y Map Trywydd Ymchwil a Datblygu gynlluniau'r Llywodraeth i fuddsoddi £800 miliwn mewn corff ariannu unigryw ac annibynnol ar gyfer ymchwil uwch, wedi'i fodelu'n fras ar Asiantaeth Prosiectau Ymchwil Uwch yr Unol Daleithiau (ARPA). Mae creu ARIA yn rhan o ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 i fuddsoddi £14.6 biliwn mewn ymchwil a datblygu yn 2021-22, gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad yr economi gyfan mewn ymchwil a datblygu i 2.4% o gynnyrch domestig gros (GDP) erbyn 2027.
5. Fel y mae'r Map Trywydd yn ei nodi, bydd ARIA yn hyrwyddo gwaith ymchwil a datblygu blaengar a thrawsnewidiol sy'n bosibl iawn o fethu ond gall arwain at y buddion hirdymor mwyaf. Bydd ARIA "yn cefnogi technolegau arloesol ac ymchwil sylfaenol drwy arbrofi gyda modelau ariannu newydd ar draws gorwelion amser hirdymor" ac "yn buddsoddi mewn syniadau newydd a grymuso ymchwilwyr i gyflawni datblygiadau technolegol radical".

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

7. Mae'r Bil yn sefydlu ARIA ac yn gwneud darpariaeth i ARIA gynnal ymchwil wyddonol, neu gomisiynu neu gefnogi eraill i ymgymryd ag ymchwil o'r fath, ei datblygu a manteisio ar wybodaeth wyddonol, i gasglu, rhannu, cyhoeddi a datblygu'r wybodaeth honno ac i ddarparu cyllid wrth arfer ei swyddogaethau. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu cyllid grant ar gyfer ARIA.
8. Gall ARIA ddatblygu a manteisio ar wybodaeth wyddonol a defnyddio ymchwil wyddonol at ddibenion creu prototeipiau neu gyflwyno cynhyrchion i'r farchnad. Gall ARIA gomisiynu neu gefnogi eraill i wneud yr un peth. Gall ARIA gymryd rhan ecwiti mewn cwmni y mae wedi ffurfio partneriaeth ag ef i gynnal ymchwil sylfaenol gyda'r bwriad o ddod â chynnyrch i'r farchnad. Gall ARIA barhau i ddarparu mewnbyn technolegol ar ôl i gynnyrch fynd i'r farchnad.
9. Gall ARIA ledaenu gwybodaeth wyddonol drwy gynnull cynadleddau neu seminarau, cyhoeddi papurau academaidd neu bapurau eraill i'w defnyddio'n breifat neu i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gall ARIA hefyd ddarparu cymorth ariannol gan gynnwys rhoi grantiau, benthyciadau, buddsoddiadau mewn cwmnïau neu endidau eraill, neu unrhyw daliadau eraill gan gynnwys gwobrau.
10. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, nid yw ARIA wedi'i gyfyngu i weithgareddau yn y Deyrnas Unedig (DU). Fodd bynnag, rhaid i ARIA ystyried dymunoldeb gwneud hynny er budd y DU drwy:
 - a. cyfrannu at dwf economaidd, neu fudd economaidd, yn y DU;
 - b. hyrwyddo arloesedd a dyfeisgarwch gwyddonol yn y DU; neu
 - c. gwella ansawdd bywyd yn y DU (neu yn y DU a manau eraill)..
11. Pwnc cyffredinol y Bil yw creu ARIA a rhoi pwerau a dyletswyddau iddi. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi grantiau i ARIA a bydd gan ARIA bwerau i ddarparu cyllid i eraill wrth arfer ei swyddogaethau.

Darpariaethau yn y Bil y mae cydsyniad yn ofynnol ar eu cyfer

12. Bwriedir i ARIA fod yn sefydliad sy'n gweithredu ledled y DU, yn debyg i Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a'i Gynghorau Ymchwil. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud pwerau ariannu ARIA (ar gyfer gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi) yn fater a gedwir yn ôl drwy ddiwygio paragraff 87 o Adran C11 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod ARIA yn eistedd ochr yn ochr ag UKRI a'r Cynghorau Ymchwil (Adran 9 (1) o Atodlen 3A i'r Bil, gweler isod). Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.
13. Mae angen cydsyniad y Senedd ar y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar yr un telerau neu delerau tebyg mewn perthynas â Chymru. Mae prif bwnc y Bil, ymchwil ac arloesi (defnyddir y term 'arloesi' yn y Bil fel disgrifydd ynghyd â'r term 'dyfeisio' ond 'arloesi' yw'r term a dderbynnir yn ehangach ac felly fe'i defnyddir yma), yn faes datganoledig o'r

gyfraith. Rydyn ni o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar y darpariaethau canlynol (Cymalau ac Atodlenni) yn y Bil:

Cymal 1. Sefydlu ARIA

Mae hyn yn cynnwys sefydlu ac enwi'r corff ac mae'n cyflwyno Atodlen 1 (manylion yr asiantaeth a'i gweinyddiaeth). Mae angen cydsyniad – nid oes unrhyw amheuaeth gan y Senedd na chyfyngiad arni rhag sefydlu corff ariannu ac ymchwil i Gymru sy'n debyg i ARIA.

Cymal 2. Swyddogaethau ARIA

Mae hyn yn ystyried cynnal ymchwil wyddonol, datblygu gwybodaeth wyddonol a manteisio arni, a darparu cymorth ariannol a all fod yn ddarostyngedig i amodau. Nid yw'r gweithgareddau wedi'u cyfyngu i'r DU. Hefyd, mae'n gosod dyletswydd i ystyried budd y DU, drwy fudd economaidd, hyrwyddo arloesedd a gwella ansawdd bywyd yn y DU ac mewn mannau eraill. Mae angen cydsyniad - gall y Senedd ddeddfu i roi'r swyddogaethau hyn ar gorff y mae'n ei greu. Byddai unrhyw ddyletswydd y mae'n ei gosod yn debyg i ddyletswydd ARIA i roi sylw i fudd y DU yn cael ei chyfyngu i "er budd Cymru".

Cymal 3. Ymchwil uchelgeisiol, datblygu a manteisio: goddefgarwch at fethiant

Gall ARIA roi pwys penodol ar botensial ar gyfer manteision sylweddol sy'n peri risg uchel o fethu. Mae angen cydsyniad – mae hon yn swyddogaeth y gallai'r Senedd ei rhoi i gorff y mae'n ei greu.

Cymal 4. Grantiau i ARIA gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi grantiau i ARIA a all fod yn ddarostyngedig i amodau. Mae angen cydsyniad – mae o fewn cymhwysedd y Senedd i ddeddfu i roi'r pwerau ariannu hyn i gorff y mae'n ei greu.

Cymal 5. Cyfarwyddydau diogelwch gwladol

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau i ARIA o ran arfer ei swyddogaethau os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd diogelwch gwladol. Rhaid i ARIA gydymffurfio. Mae angen cydsyniad, gan fod y ddarpariaeth hon yn gweithredu ar y cyd â chymalau sylweddol y Bil ac mae gan y Senedd gymhwysedd i gyfarwyddo corff a sefydlwyd gan y Senedd yng Nghymru at yr un dibenion. Ni yw'r cymal hwn yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, yn hytrach mae'n ymwneud â rhoi cyfarwyddiadau.

Cymal 6. Gwybodaeth

Rhaid i ARIA roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gais mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ARIA, oni bai bod hyn yn torri deddfwriaeth diogelu data neu ffrain broffesiynol gyfreithiol. Mae angen cydsyniad gan fod gan y Senedd gymhwysedd i osod y ddyletswydd hon ar gorff tebyg i ARIA a greodd.

Cymal 7. Cynlluniau trosglwyddo mewn perthynas ag Atodlen 2

Mae'r Cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 2 a drafodir isod.

Cymal 8. Pŵer i ddiddymu ARIA

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu ARIA drwy reoliadau ond nid o fewn 10 mlynedd i'r dyddiad y caiff y Ddeddf ei phasio. Rhaid ymgynghori cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae angen cydsyniad – mae gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar gyfer diddymu corff y mae'n ei greu drwy reoliadau o dan yr un telerau.

Cymal 9. Diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag Atodlen 3

Mae'r Cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 3 a drafodir isod.

Cymal 10. Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, addasu unrhyw "ddarpariaeth berthnasol" y mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 8. Ystyr "darpariaeth berthnasol" yw deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd cyn diwedd y Sesiwn y mae'r Ddeddf yn cael ei phasio ynddi, neu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir. Ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw Deddf, Deddf gan Senedd yr Alban, Deddf neu Fesur o ddeddfwriaeth Senedd Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae angen cydsyniad oherwydd gall y Senedd gynnwys darpariaeth debyg i hon mewn unrhyw Ddeddf (ond dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud ag addasu deddfwriaeth Cymru gan Weinidogion Cymru).

Cymal 11. Rheoliadau

Mae rheoliadau i'w gwneud drwy Offeryn Statudol. Y weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adrannau 8 a 10 (pan fyddant yn diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol neu brif deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir). Defnyddir y weithdrefn negyddol ar gyfer pob rheoliad arall. Mae angen cydsyniad gan fod y ddarpariaeth hon yn gweithredu ar y cyd â phrif ddarpariaethau'r Bil sy'n gofyn am femorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

Mae gweddill y Cymalau, 12, 13, 14 a 15, yn ddarpariaethau safonol ar gyfer biliau'n cynnwys dehongli, y teitl byr, dechrau a rhychwant.

Atodlen 1: Yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Mae'n disgrifio strwythur gweinyddol a gweithrediad yr asiantaeth ac ymglymiad Prif Gyngorydd Gwyddonol y Llywodraeth fel aelod anweithredol. Mae angen cydsyniad – mae gan y Senedd gymhwysedd i wneud yr un darpariaethau mewn perthynas â chorff y mae'n ei greu. Byddai penodi Prif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU yn aelod anweithredol y tu allan i gymhwysedd y Senedd, ond gallai'r Senedd benodi aelod o Lywodraeth Cymru sy'n cyfateb i'r swydd honno fel aelod anweithredol o'r corff y mae'n ei greu.

Atodlen 2: Cynlluniau Trosglwyddo

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud cynlluniau trosglwyddo eiddo neu staff. Mae angen cydsyniad – gall y Senedd roi'r pŵer i wneud cynlluniau tebyg i Weinidogion Cymru.

Atodlen 3: Diwygiadau canlyniadol

Mae hyn yn gwneud diwygiadau i'r Deddfau a'r Rheoliadau canlynol: Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958; Deddf Comisiynydd Seneddol 1967; Deddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975; Deddf Anghymhwysu Cynulliad Gogledd Iwerddon 1975; Deddf yr Alban 1998; Deddf Gogledd Iwerddon 1998; Deddf Cydraddoldeb 2010; Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.

14. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy ychwanegu cyfeiriad at ARIA at baragraff 87 o Ran 2 o Atodlen 7A, Adran C11. Hefyd, mae'n gwneud diwygiadau i'r Tabl yn Atodlen 3A, gan ychwanegu ARIA at UKRI a Chynghorau Ymchwil fel bod swyddogaethau o dan adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 yn cael eu cadw yn ôl i un o Weinidogion y Goron ac na fyddant yn cael eu harfer ar yr un pryd â Gweinidogion Cymru. Nid oes angen cydsyniad ar gyfer diwygiadau i Ddeddfau a rheoliadau sy'n berthnasol i'r DU gyfan, nac i Ddeddfau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – mewn perthynas â'r diwygiad i baragraff 87, er nad oes angen cydsyniad ar sail y ffaith bod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu i wneud y darpariaethau hyn (paragraff 7(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru), byddai'n gyfystyr ag addasu cymhwysedd y Senedd i wneud ARIA yn fater penodol a gedwir yn ôl, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar y sail honno (Rheol Sefydlog 29). O ran y diwygiad i'r Tabl yn Atodlen 3A, nid oes angen cydsyniad ar gyfer hwn gan nad yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (paragraff 7(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru)
15. Trwy ychwanegu ARIA at y materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, fe ddaw yn "awdurdod penodol" o dan baragraff 197 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn atal y Senedd rhag deddfu mewn perthynas ag ARIA, gan gynnwys dileu neu addasu ei swyddogaethau.

Rhesymau ar gyfer gwneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil ARIA

16. Bydd ARIA yn gorff newydd sydd â chylch gwaith ledled y DU gyda'r potensial i ariannu ymchwil a gwaith dyfeisio blaengar ledled y DU mewn modd a ddyfernir yn gystadleuol yn seiliedig ar deilyngdod. Nid yw'n disodli nac yn dyblygu unrhyw gorff presennol y DU a gadwyd yn ôl nac unrhyw gorff a sefydlwyd yng Nghymru, a byddai'n cynnig mwy o gyfle ar draws y DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ym Mil ARIA o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer unrhyw ddylanwad ar weithgareddau ARIA gan y llywodraethau datganoledig.

Safbwynt Polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd

17. Diogelu pwerau'r Senedd yw ein safbwynt ni. Mae Bil ARIA yn ceisio cadw sawl pŵer yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU o ran ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac ystyriwn hyn i fod yn annerbyniol.
18. O ran Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y corff cyfatebol a gedwir yn ôl ar gyfer y DU gyfan yw Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), gyda'i Gynghorau Ymchwil a Innovate UK. Sefydlwyd y corff hwn yn 2018 gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (HERA 2017) fel corff a gedwir yn ôl ar gyfer y DU, ac mae ganddo bwerau i ariannu ymchwil ac arloesi yng Nghymru ochr yn ochr â gallu Llywodraeth Cymru i wneud yr un peth. Ar y pryd, gwnaed y ddadl gan y llywodraethau datganoledig y dylai bwrdd UKRI gynnwys cynrychiolwyr o'r gwledydd datganoledig, ac er i'r cynnig hwn gael ei wrthod ar gyfer yr holl wledydd datganoledig, roedd y ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth ei bod yn *"rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benodi aelodau UKRI, roi sylw i ddymunoldeb cynnwys ymhlith yr aelodau o leiaf un person â phrofiad perthnasol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon."* Wrth wneud penodiadau i fwrdd UKRI, dilynwyd yr egwyddor hon gydag o leiaf dau aelod yn meddu ar wybodaeth am Gymru, yr Alban neu Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, yn wahanol i ARA, nid yw HERA 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU neu unrhyw swyddog arall o Lywodraeth y DU i fod yn rhan o fwrdd UKRI.
19. Yn dilyn gosod y cynsail hwn, sef cydnabod yr angen am aelodau ar fwrdd UKRI sy'n meddu ar wybodaeth am Ymchwil a Datblygu yng Nghymru o dan y trefniadau datganoledig, nid wyf yn credu ei bod yn afresymol disgwyl rhoi darpariaeth debyg ar waith ar gyfer ARIA ac o ystyried bod ARIA yn darparu ar gyfer Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU i fod yn aelod. Byddaf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflwyno diwygiadau o'r fath.

Goblygiadau ariannol

20. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru na'r Senedd o ganlyniad i'r Bil hwn.

Casgliad

21. Yn fy marn i, ni fyddai'n briodol i'r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer y Bil hwn am ddau reswm: yn gyntaf, mae cadw pwerau newydd yn ôl ar gyfer Senedd y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn annerbyniol; yn ail, nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnwys y llywodraethau datganoledig yn y gwaith o lywodraethu ARIA. Rwyf wedi cyfleu hyn i'r Gweinidog BEIS a gan nad yw ein pryderon wedi'u hystyried hyd yma, argymhellaf nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad mewn perthynas â'r Bil hwn ar ei ffurf bresennol.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
9 Gorffennaf 2021